# Llais Gwent

**I Bensiynwyr sy'n Aelodau o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)**

**Gaeaf 2024**


## Croeso gan y Rheolwr Pensiynau

Ar fy ran i a'r Adran Pensiynau, hoffwn eich croesawu i Rifyn y Gaeaf 2024 o Llais Gwent, ein cylchlythyr i bensiynwyr sy'n aelodau o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen).

Mae uchafbwyntiau'r rhifyn hwn yn cynnwys:

- Gwybodaeth am sut i gofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein
- Ffurflen Aelodaeth y Sector Cyhoeddus
- 6 Cam at Ymwybyddiaeth Seiber

Os allwch chi feddwl am unrhyw welliannau i'r gwasanaeth yr ydyn ni'n ei gynnig i chi, yna buasem yn croesawu eich adborth. Mae ein rhif ffôn, ein cyfeiriad e-bost a'n cyfeiriad post ar gael ar dudalen olaf eich Llais Gwent.

Gobeithio y bydd yn llawn gwybodaeth ac yn ddiddorol i chi.



Cofion Gorau

*Jo Griffiths*

## Diwrnod Talu - Rhagfyr 2024

**Bydd eich pensiwn yn cael ei dalu**

**<u>Ddydd Mawrth 31 Rhagfyr</u> 2024**

## Cynnydd i'ch Pensiwn o 7 Ebrill 2025

Ym mis Medi 2024 roedd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 1.7% ac, yn amodol ar gadarnhad swyddogol gan y Llywodraeth, bydd eich pensiwn yn codi 1.7% ddydd Llun 7 Ebrill 2025.

Os ydych wedi bod yn cael taliadau pensiwn am lai na 12 mis efallai y cewch gyfran o'r cynnydd.

### Slipiau Talu

Byddwn yn postio slipiau talu atoch ym mis Ebrill a mis Mai 2025, er mwyn i chi allu gweld faint mae eich pensiwn wedi codi. Yr unig bryd fyddwn ni'n postio slip talu atoch ar unrhyw adeg arall fydd pan fo swm y pensiwn rydyn ni'n ei dalu i chi yn y mis hwnnw yn newid £10 neu fwy.

### Eich P60 ar gyfer 2024/25

Byddwn ni hefyd yn anfon P60 atoch gyda'ch slip talu ar gyfer mis Ebrill 2025 . Hwn yw eich **cofnod swyddogol** o'r pensiwn rydyn ni wedi ei dalu i chi yn ystod y flwyddyn, ac unrhyw dreth yr ydych wedi ei thalu arno.

**Os ydych chi wedi cofrestru i ddefnyddio Fy Mhensiwn Ar-lein gallwch argraffu eich slipiau talu a'ch P60 eich hun, a chofiwch ein bod yn anfon slip talu i'ch cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein bob mis.**


***Gweler yr erthygl am gofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein…..***

# Cofrestrwch ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein

Ewch at ein gwefan www.gwentpensionfund.co.uk a chliciwch ar y ddolen Fy Mhensiwn Ar-lein ar ben y dudalen hafan.  Os ydych chi ar ddyfais symudol, cliciwch ar y “ ≡ “ a dewis-wch Fy Mhensiwn Ar-lein


**Cam 1**

Cliciwch ar **‘Cofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn’**





**Cam 2**

Cliciwch **Cofrestru am Fy Mhensiwn**




**Cam 3**


Teipiwch eich **Cyfenw, Rhif Yswiriant Gwladol, Dyddiad Geni** a **Chyfeiriad E-bost** a chliciwch ar '**Cofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn'**




- Os oes gennym gyfeiriad e-bost ar eich cyfrif yna byddwch yn cael neges e-bost oddi wrthym gyda dolen y gallwch glicio arni i gwblhau eich cofrestriad.  **Gwiriwch eich ffeil sothach rhag ofn i’r e-bost fynd yno**
- Os nad oes gennym gyfeiriad e-bost ar gofnod i chi, byddwn yn anfon allwedd actifadu atoch er mwyn i chi gwblhau'r cofrestriad. Bydd yn cael ei hanfon atoch  trwy’r post a dylech ei chael o fewn 3 - 5 diwrnod. Dewiswch 'Actifadu fy Nghyfrif' unwaith y byddwch wedi ei chael.

**Cam 4**

Cliciwch y ddolen yn yr e-bost a ddanfonwn atoch, neu ewch i dudalen Fy Mhensiwn ar-lein a chliciwch y botwm **Cychwyn eich cyfrif** os danfonwn eich allwedd cychwyn trwy’r post.




- Wrth i chi gychwyn eich cyfrif, bydd y system yn gofyn i chi roi enw defnyddiwr, cyfrinair a 2 gwestiwn diogelwch. Unwaith y byddwch wedi gorffen gallwch **‘Mewngofnodi i Fy Mhensiwn’**

**Os oes problemau cofrestru neu fewngofnodi i Fy Mhensiwn Ar-lein, gallwch siarad â’n tîm trwy 01495 742299 neu ddanfon e-bost at mypensiononline@torfaen.gov.uk**

## Y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI)

Mae NFI yn helpu i ddod o hyd i dwyll, a'i atal, trwy gyfateb data ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus. O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) yn rhan o'r fenter gan ei bod yn ddyletswydd arnom i ddiogelu'r arian cyhoeddus yr ydyn ni'n ei weinyddu yn y cynllun. Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio arian cyhoeddus neu eu weinyddu, er mwyn helpu i atal twyll

Rhown wybodaeth yn ôl yr angen i Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn cyfateb data.

Gweithredir NFI o dan y *'**Cod Ymarfer Cyfateb Data***. Cewch ragor o wybodaeth am gyfateb data a'r Cod ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru : www.audit.wales/cy/ein-gwaith/menter-twyll-genedlaethol

## Pam defnyddio Fy Mhensiwn Ar-lein…

- **Mynediad 24/7** — gallwch ddefnyddio'ch cyfrif ar unrhyw adeg, felly gallwch reoli'ch pensiwn yn hwylus.
- **Diogel** — caiff eich P60 a'ch Slipiau Talu Misol eu storio'n ddiogel, a gallwch eu lawrlwytho a'u gweld ar unrhyw adeg.
- **Hawdd i ddiweddaru** — gallwch ddiweddaru'ch manylion personol yn gyflym trwy eich cyfrif.
- **Negeseuon Diogel** – Anfonwch eich cwestiynau atom yn uniongyrchol trwy eich cyfrif mewn neges ddiogel.
- **Eco-gyfeillgar**– Mae cael dogfennau'n electronig yn helpu i leihau'r ôl troed carbon ac yn golygu bod angen argraffu a phostio llai o ddogfennau.

## Ffurflen Cynllun Pensiwn Gwasanaethau Cyhoeddus

Efallai y sylwch ein bod ni wedi cynnwys ffurflen aelodaeth pensiwn gwasanaethau cyhoeddus gyda'ch cylchlythyr eleni.

A wnaethoch ymddeol o'r CPLIL neu roi'r gorau i dalu i mewn i'r CPLIL ar ôl 2014? Os felly, darllenwch ymlaen…

Mae Rhwymedi McCloud yn y CPLIL yn cael gwared ar y gwahaniaethu ar sail oed a welwyd yng Nghynllluniau Pensiwn y Sector Cyhoeddus, yn sgil Dyfarniad McCloud.

Mae angen adolygu cyfrifon pensiwn ein haelodau arnom i weld a ydyn nhw'n gymwys i gael amddiffyniad tanategol ar eu pensiwn.

**Does dim angen i chi lenwi'r ffurflen os oeddech wedi ymddeol cyn 1 Ebrill 2014.**

Mae'r manylion ar y ffurflen yn esbonio pwy ddylai lenwi'r ffurflen a pha aelodaeth sector gyhoeddus y mae angen i ni wybod amdani.

**Does dim angen i chi gysylltu â ni gan y byddwn yn cysylltu ag aelodau y mae Rhwymedi McCloud yn effeithio arnynt.**



# Cadw mewn Cysylltiad

## Mae'n haws wrth gofrestru gyda Fy Mhensiwn Ar-lein….

## Diweddaru manylion banc

Gallwch newid manylion eich cyfrif banc trwy fewngofnodi i'ch cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein. Mae'r cyfleuster yno i chi.

Gallwch newid eich manylion trwy lenwi ffurflen os fyddai hynny'n well gennych. Mae'r ffurflen ar ein gwefan yn adran **Ffurflenni a Chyhoeddiadau** neu gofynnwch i ni ei hanfon atoch trwy'r post.

Gallwn dalu eich pensiwn i mewn i gyfrif sydd â'ch enw chi arno neu gyfrif ar y cyd â'ch enw chi arno. Os byddwch chi'n newid yr enw ar eich cyfrif dylech roi gwybod i ni hefyd, i sicrhau nad oes problem talu'ch pensiwn.

Cofiwch y bydd newidiadau a wnaed ar ôl i ni redeg y gyflogres i bensiynwyr ddim yn weithredol tan y mis canlynol. Byddwn yn dweud wrthych bob tro os na fydd y newid yn weithredol tan eich taliad pensiwn nesaf.

### Diweddarwch eich cyfeiriad e-bost

Os oes well gennych ein bod yn cysylltu â chi trwy e-bost yna rydyn ni'n hapus i wneud hynny.



Ond, mae'n bwysig iawn eich bod yn diweddaru eich cyfeiriad e-bost. Os yw'ch cyfeiriad e-bost yn newid, cofiwch roi gwybod i ni er mwyn i ni allu cysylltu a chi, neu gallwch ddefnyddio'ch cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein i ddiweddaru eich cyfeiriad e–bost. Byddwn yn ceisio cysylltu â chi trwy e-bost yn gyntaf, bob tro.

**Ateb y Sudoku ar gyfer y Pos Pensiynwyr**

**Pos 1**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | 3 | 1 | 2 |
| 2 | 1 | 3 | 4 |
| 3 | 4 | 2 | 1 |
| 1 | 2 | 4 | 3 |

**Pos 2**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | 2 | 1 | 3 |
| 3 | 1 | 4 | 2 |
| 1 | 3 | 2 | 4 |
| 2 | 4 | 3 | 1 |

## SymudTŷ?



Gwnawn ein gorau glas i wneud yn siŵr na fyddwn yn colli cysylltiad â'n pensiynwyr. Rydyn ni'n gwybod bod symud tŷ yn gallu bod yn adeg hynod o brysur, felly does dim syndod bod pobl yn anghofio dweud eu bod wedi symud weithiau.

Felly, cofiwch roi'ch cyfeiriad newydd i ni, naill ai trwy ddiweddaru eich cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein, trwy e-bost, trwy lythyr neu dros y ffôn. Mae ein manylion cyswllt ar Galendr Diwrnodau Talu Pensiwn 2025.

Os byddwn yn anfon llythyron at bensiynwr sy'n aelod ac maen nhw'n dod yn ôl atom wedi'u marcio â'r geiriau 'Ddim yn y Cyfeiriad Hwn' neu 'Dychweler at y Danfonwr', yna byddwn yn stopio'r taliadau pensiwn hyd nes i ni glywed gennych.

Gwnawn hyn i'ch diogelu ac i sicrhau nad yw'ch gwybodaeth gyfrinachol yn mynd i'r cyfeiriad anghywir, gan gyflwyno risg y gallai rhywun ddwyn eich hunaniaeth.

## Dywedwch Wrthym Unwaith

Rydyn ni'n rhan o'r gwasanaeth "Dywedwch Wrthym Unwaith" a gynigir wrth gofrestru profedigaeth. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn ar wefan gov.uk: https://www.gov.uk/after-a-death/organisations-you-need-to-contact-and-tell-us-once

Efallai y byddwch wedi cronni cynilion

## Cadw llygad ar eich holl bensiynau

pensiwn gyda chyflogwr arall. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw mewn cysylltiad â nhw er mwyn iddyn nhw allu talu eich pensiwn pan fydd yn ddyledus.

Os ydych wedi colli golwg ar bensiynau blaenorol, gall y Gwasanaeth Tracio Pensiynau helpu.

Ewch i wefan gov.uk - www.gov.uk/find-pension-contact-details

## Holi am Godau Treth

Mae Cyllid a Thollau EF (CThEF) yn dweud wrthym faint o dreth i'w chymryd o'ch pensiwn trwy eich cod treth. Dydyn ni ddim yn gallu newid eich cod treth os nad yw CThEF wedi dweud wrthym am wneud hynny. Os ydych chi eisiau holi am eich cod treth neu'ch atebol-rwydd i dalu treth, ysgrifennwch i:

Pay As You Earn and Self Assessment
HM Revenue and Customs
BX9 1AS
United Kingdom
Neu ffoniwch: 0300 200 3300

***Bydd gofyn i chi roi eich rhif Yswiriant Gwladol a rhoi'r Cyfeirnod TWE 948/T440N***

## Gwiriadau Ardystio Bywyd i Bensiynwyr Tramor



O bryd i'w gilydd mae angen i Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) wirio bod ein cofnodion ar gyfer Pensiynwyr Tramor mewn trefn, er mwyn sicrhau bod taliadau pensiwn yn dal i gael eu talu. Mae'r broses Ardystio Bywyd yn sicrhau bod ein cofnodion yn gywir, mae'n ymarfer gwrth-dwyll ac mae'n diogelu asedau Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen).

Diolch yn fawr i'r rheiny ohonoch sydd wedi cwblhau'r broses.

Rydyn ni'n edrych ar ddefnyddio proses wahanol wrth ardystio bywyd y tro nesaf. Byddwn mewn cysylltiad â chi gyda rhagor o fanylion am unrhyw newidiadau.

## Dweud wrthym eich bod yn symud dramor

Os ydych chi'n symud dramor, rydyn ni'n gwybod y bydd yn adeg prysur i chi a bod llawer gennych i'w wneud!! Ond, er mwyn sicrhau nad yw'n effeithio ar eich taliadau pensiwn mae'n bwysig iawn eich bod yn dweud wrthym eich bod yn symud dramor.

Defnyddiwch eich cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein i newid eich cyfeiriad, neu fe allwn gymryd eich cyfeiriad newydd dros y ffôn neu trwy e-bost. Os oes angen newid eich taliadau pensiwn i gyfrif banc tramor arnoch, defnyddiwch eich tudalen gyswllt ar Fy Mhensiwn Ar-lein i gysylltu ac fe allwn ni anfon Ffurflen Cyfrif Banc Tramor atoch er mwyn i ni drefnu hyn ar eich cyfer.

# Seiber Ymwybyddiaeth a Seiber Ddiogelwch
## 6 Cham Sieber Ymwybuddiaeth I ddiogelu eich hun

Mae gan Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol y DU (NCSC) awgrymiadau gwych y gallwch eu dilyn i gadw eich hun, eich teulu a'r dechnoleg yr ydych yn ei defnyddio yn ddiogel, i leihau'r risg o gael eich targedu gan seiberdroseddwyr.

### Defnyddiwch gyfrineiriau cryf a gwahanol ar gyfer eich cyfrif e-bost a'ch cyfrifon ar-lein

- Cofiwch osgoi defnyddio'r un cyfrinair ar gyfer sawl cyfrif ar-lein. Wrth ddefnyddio'r un cyfrinair mae'n golygu mai un cyfrinair sydd ei angen ar droseddwyr i gael mynediad i'ch holl gyfrifon.
- Defnyddiwch gyfrinair cryf a gwahanol bob amser ar gyfer eich cyfrif e-bost. Os bydd seiberdroseddwyr yn dwyn cyfrinair cyfrif llai pwysig, ni fyddant yn gallu ei ddefnyddio i fynd i mewn i'ch e-bost.

### Ewch ati i osod y feddalwedd ddiweddaraf a diweddaru apiau

- Diweddarwch eich apiau a'ch meddalwedd ar ddyfeisiau cyn gynted ag y byddant ar gael. Bydd hyn yn helpu i gadw eich dyfeisiau a'ch cyfrifon yn ddiogel rhag troseddwyr.

### Trowch yr opsiwn dilysu 2 gam (2SV) ymlaen

- Diogelwch eich cyfrifon pwysicaf drwy ddilyn yr opsiwn dilysu 2 gam (2SV) neu'r proses ddilysu aml-ffactor (MFA).
- Mae'n ffordd effeithiol o ddiogelu eich cyfrifon rhag seiberdroseddwyr am ei fod yn rhoi haen ychwanegol o ddiogelwch os ydynt yn dwyn eich cyfrineiriau.
- Defnyddiwch amrywiaeth o ddulliau yn cynnwys ôl bys, sganiau wyneb neu ap i gadarnhau pwy ydych chi.

### Defnyddio porwyr ac apiau i storio cyfrineiriau yn ddiogel

- **Angen help i gofio eich cyfrineiriau?** Defnyddiwch reolwr cyfrinair neu eu cadw yn eich porwr.
- Mae'n ddefnyddiol wrth greu cyfrineiriau gwahanol ar gyfer cyfrifon fel nad oes angen i chi eu cofio.
- Byddwch yn ofalus os ydych chi'n rhannu cyfrifiadur neu ddyfais, a hynny o ran pwy arall a allai weld y cyfrineiriau yr ydych wedi'u cadw.

### Gwnewch gopi o'ch data

- Nid yw'n cymryd yn hir iawn i greu copi o'ch data a gallwch hyd yn oed drefnu iddo ddigwydd yn awtomatig.
- Mynnwch wared â'r straen heb golli'ch data.
- Ewch ati i gopïo'ch data a'i storio ar y cwmwl, tynnwch y gyriant caled neu gof bach.

### Dim gwendid

- Gall troseddwyr ddod o hyd i gyfrineiriau gwan mewn eiliadau.
- Mae cyfrineiriau hirach ac anarferol yn ei gwneud hi'n anoddach i droseddwyr ddwyn eich cyfrinair.
- Rhowch dri gair ar hap at ei gilydd i wneud cyfrinair anodd neu beth am greu yfrinair gyda rheolwr cyfrinair.

Gallwch ddarllen mwy am y camau i'w dilyn ar wefan NCSC: [www.ncsc.gov.uk/section/information-for/individuals-families](www.ncsc.gov.uk/section/information-for/individuals-families)

Gallwch ddysgu mwy am sut i gadw'n ddiogel ar-lein ar wefan Canolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol y DU: [www.ncsc.gov.uk/cyberaware/home](www.ncsc.gov.uk/cyberaware/home)

# Pos Pensiynwyr

**Llenwch y posau fel bod pob rhes ar draws, pob colofn a phob blwch 5 x 4 yn cynnwys y rhifau 1 i 4.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | 1 | | 4 |
| 3 | | | 1 |
| | | | 3 |

**Dewch o hyd i'r atebion sudoku ar dudalen cadw mewn cysylltiad eich cylchlythyr Llais Gwent.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 2 | 1 | 3 |
| 3 | | | 2 |
| | | | |
| | | | |

# Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

# Diwrnodau Tâl Pensiwn 2025

**Ionawr**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 |
| 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 |
| 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 |
| 27 | 28 | 29 | 30 | 31 | | |

**Chwefror**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 1 | 2 |
| 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 |
| 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 |
| 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | | |

**Mawrth**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 1 | 2 |
| 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 |
| 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 |
| 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | 30 |
| 31 | | | | | | |

**Ebrill**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
| 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 |
| 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 |
| 28 | 29 | 30 | | | | |

**Mai**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 | 2 | 3 | 4 |
| 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 |
| 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 |
| 26 | 27 | 28 | 29 | 30 | 31 | |

**Mehefin**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 1 |
| 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
| 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 |
| 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 |
| 30 | | | | | | |

**Gorffennaf**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
| 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 |
| 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 |
| 28 | 29 | 30 | 31 | | | |

**Awst**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1 | 2 | 3 |
| 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 |
| 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 |
| 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | 30 | 31 |

**Medi**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | | | | | |

**Hydref**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 |
| 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 |
| 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 |
| 27 | 28 | 29 | 30 | 31 | | |

**Tachwedd**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 1 | 2 |
| 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 |
| 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 |
| 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | 30 |

**Rhagfyr**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | 31 | | | | |

Diwrnod tâl pensiwn yw dyddiad gwaith olaf y mis, a ddangosir yn oren ar y calendr


Crofna Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6YB

01633 647799

pensions.payroll@torfaen.gov.uk

**Fy Mhensiwn Ar-lein**

Cofrestrwch Nawr!



www.gwentpensionfund.co.uk

Talu Wrth Ennill a HunanAsesiad
Cyllid a Thollau EF
BX9 1AS

Cyfeirnod PAYE 948/T440N
0300 2003300